

CABINET - DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWDYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT. AR DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025 14:30

Presennol

Y Cyngorydd JC Spanswick – Cadeirydd

N Farr
P Davies

J Gebbie
M J Evans

HM Williams
M Jones

E L P Caparros

Presennol – O Bell

Swyddogion:

Jake Morgan
Nimi Chandrasena
Carys Lord
Claire Marchant
Janine Nightingale
Kelly Watson
Mark Galvin
Lindsay Harvey

Prif Weithredwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

563. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.
	Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i roi gwybod bod y Cyngorydd Paul Davies wedi penderfynu

CABINET - DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025

	ymddiswyddo fel Aelod Cabinet Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd oherwydd ymrwymadau personol parhaus eraill. O ystyried hyn, byddai'r rôl hon bellach yn cael ei rhannu rhwng y Cyngorwyr Eugene Caparros a Gary Haines. Felly, byddai'r Cyngorydd Mel Evans yn ymgymryd â rôl Aelod Cabinet Adnoddau yn unig, gan fod y rôl hon wedi'i rhannu rhwng y Cyngorydd Caparros a hi ei hun yn flaenorol. Diolchodd yr Arweinydd a chyd-Aelodau Cabinet i'r Cyngorydd Davies am ei gymorth yn rôl Aelodau Cabinet yr oedd wedi'i gadael am y 18 mis neu fwy diwethaf.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

564. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

565. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 3/11/2025 a 13/11/2025 fel rhai gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

566. Argymhellion gan y Grwp Gwaith Craffu ar y Gyllideb

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynwyd yr eitem hon gan Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (ar ran y Pwyllgor hwnnw). Cyflwynodd y Cyngorydd Williams Argymhellion y Gweithgor Cyllideb Craffu i'r Cabinet i'w hystyried wrth ddatblygu'r cynigion cyllideb ddrafft a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Atodwyd y rhain yn Atodiad A o'r adroddiad a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol sylw at rai o'r rhain er budd y
------------------------	--

	Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Roedd Atodiad B i'r adroddiad yn manylu ar geisiadau am wybodaeth ychwanegol a wnaed gan Aelodau yn y Gweithgor Cyllideb Craffu ar 4 Tachwedd a'r Grŵp Llywio ar 17 Tachwedd 2025, ac mae rhai ohonynt yn dilyn ceisiadau blaenorol a wnaed gan y Grwpiau Chwilio Dwfn a dderbyniodd ymatebion cychwynnol. Ar ôl ystyried yr adroddiad, cydnabuwyd bod y Cyngor yn gwella dulliau ymgysylltu yn gynnar ac ar bob cam dilynol o ran ystyriaethau cyllidebol, drwy gydol y flwyddyn gyda nifer uwch o Aelodau drwy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Gweithgor Cyllideb Craffu. PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cabinet hwnnw i ystyried ac ymateb i Argymhellion y Gweithgor Cyllideb Craffu sydd ynghlwm yn Atodiad A o'r adroddiad (yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn eu cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2025 a fydd yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Cabinet) a'u hystyried wrth ddatblygu'r cynigion cyllideb ddrafft a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

567. Polisi Gorfodi Presenoldeb Ysgol

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynodd yr Aelod Cabinet – Addysg a Gwasanaethau leuenctid adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y diwygiadau i Bolisi Gorfodi Presenoldeb Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) 2025-2028 a'r cod ymddygiad hysbysiad cosb benodedig (HCB). Roedd y diweddariadau hyn yn adlewyrchu newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol, disgwyliadau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau lleol ar gyfer gwella presenoldeb ysgolion. Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am yr adroddiad, ac ymatebwyd iddynt gan yr Aelod Cabinet – Addysg a Gwasanaethau leuenctid a/neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynnyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, er enghraifft: • Sut y bydd y Polisi diwygiedig yn cael ei fonitro a'i adolygu er mwyn sefydlu a yw'r ffigurau presenoldeb ysgol yn gwella (neu ddim, yn ôl y digwydd);
------------------------	---

	- Faint o Hysbysiadau Cosb Benodedig sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Heddlu am absenoldeb diawdurdod parhaus disgyblion o ysgolion yn ddiweddar?; - Faint o Hysbysiadau Cosb Benodedig y mae'r Awdurdod Addysg wedi'u cyhoeddi yn ystod y 12 mis diwethaf ar gyfer absenoldeb diawdurdod ysgol; - Faint yw costau'r Llys i'r Cyngor sy'n deillio o ddwyn rhieni disgyblion i'r Llys mewn cysylltiad ag absenoldeb diawdurdod parhaus o'r ysgol? PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn: - Cymeradwyo'r Polisi Gorfodi Presenoldeb Ysgol diwygiedig. - Cymeradwyo'r Cod Ymddygiad Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i ddiweddarau.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

568. Llywodraethu'r Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (Awdurdodau Lleol) Cymru - Cworaciaeth y Pwyllgor Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd a Lles adroddiad, a oedd yn ceisio cael cytundeb i 'Weithred Amrywio' i ddiwygio'r cworwm sy'n ofynnol ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Cenedlaethol. Esboniodd y byddai cytuno ar y cynnig hwn yn galluogi'r Cydbwyllgor i gyfarfod ac ymgymryd â'i swyddogaethau ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a thrwy hynny alluogi goruchwyliaeth ganddo o'r trefniadau cydweithredol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu a maethu. Byddai cymeradwyo argymhellion yr adroddiad, yn cynorthwyo cyfarfodydd yn y dyfodol i fod â chworwm, ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd a Lles. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:
------------------------	--

	1. Cymeradwyo'r cynnig i ostwng cworwm y Cydbwyllgor i 40%, gydag o leiaf 3 ardal ranbarthol yn cael eu cynrychioli. 2. Awdurdodi ymrwymo i'r Weithred Amrywio a'i selio er mwyn galluogi gweithredu hyn.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

569. Adolygiad o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynodd yr Aelod Cabinet – Cyllid a Pherfformiad adroddiad, i ddarparu Datganiad drafft arfaethedig o Bolisi Trwyddedu i'r Cabinet yn Atodiad A o'r adroddiad i'w ystyried a'i nodi cyn symud ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Nodwyd crynodeb o'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar y polisi, yn Atodiad B, ynghyd â sylwadau'r swyddogion. Dywedodd yr adroddiad fod y Cyngor, fel yr awdurdod trwyddedu, yn gyfrifol am reoleiddio safleoedd sy'n cynnig alcohol, adloniant rheoledig a darparu lluniaeth hwyr y nos. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu sy'n nodi sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â rhoi trwyddedau. Dywedodd fod adolygiad o'r Polisi wedi'i gynnal yn dilyn ymgynghoriad a bod diwygiadau wedi'u gwneud i'r Polisi hwnnw. Cytunwyd ar y Polisi gan y Pwyllgor Trwyddedu yn eu cyfarfod ar 30 Medi 2025. Y bwriad oedd bod y Cabinet ystyried y polisi, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Cododd Aelod rai pryderon, gan ei bod yn teimlo nad oedd darpariaethau'r polisi yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) mewn cysylltiad â sut mae penderfyniadau iechyd yn cael eu mesur. Gofynnodd felly sut mae'r awdurdod trwyddedu yn ystyried cenedlaethau'r dyfodol, o ystyried bod gan Ben-y-bont ar Ogwr rai o'r materion a'r mesurau iechyd gwaethaf yn y DU.
------------------------	--

	Dyweddodd Rheolwr Gweithredol Diogelu'r Amgylchedd a Thrwyddedu fod y Polisi Trwyddedu yn seiliedig ar Adran 182 o'r canllawiau trwyddedu a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Ganolog, sy'n ymdrin yn benodol â'r pedwar amcan trwyddedu statudol ac yn ystyried y rhain pan gyflwynir ceisiadau trwyddedu i'r Awdurdod. Mae hon yn broses gyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hi ac mae'r amcanion hyn yn croestorri rhai materion iechyd fel y cyfeirir atynt yn y cwestiwn uchod. Fodd bynnag, nid oedd hyrwyddo iechyd y cyhoedd fel y cyfryw, yn eistedd yn benodol o fewn cyfundrefn y Ddeddf Trwyddedu. Yna gofynnodd Aelod am rywfaint o eglurder o ran y berthynas rhwng y broses drwyddedu a'r broses gynllunio o ran ystyried cais trwyddedu a chynllunio ar gyfer safle. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol Diogelu'r Amgylchedd a Thrwyddedu (fel y cyfeirir ato uchod) fod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu sicrhau wrth ystyried cais er enghraifft am drwydded safle, i berchennog werthu alcohol, bwyd a darparu adloniant cyhoeddus, yr effaith y byddai rhoi trwydded o'r fath yn ei chael ar y pedwar amcan trwyddedu. Roedd gan yr awdurdod cynllunio o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Gynllunio, gylch gwaith ehangach wrth ystyried cais cynllunio, h.y. yr effaith y byddai'r safle yn ei chael ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a oedd yn darparu ar gyfer defnydd tir penodol mewn gwahanol leoliadau yn y Fwrdeistref Sirol, maes parcio, materion priffyrdd ac amwynder gweledol ac ati. Felly, er bod trwyddedu a chynllunio yn cyfathrebu â'i gilydd ar unrhyw geisiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor, roedd y ddau yn ystyried materion gwahanol o dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r Datganiad drafft o'r Polisi Trwyddedu a chytuno i gyfeirio'r Polisi i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

570. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad Gwybodaeth, a oedd yn cynnwys manylion y polisi presennol o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a'r defnydd o'r Ddeddf honno yn yr Awdurdod. Cadarnhaodd paragraff 3.2 o'r adroddiad nad oedd unrhyw awdurdodiadau ar gyfer y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn CBSP ers mis Ebrill 2014.
------------------------	--

CABINET - DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025

	Roedd y Polisi Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio ynghlwm yn Atodiad 1 o'r adroddiad cwmpasu, wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn unol â'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

571. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw eitemau brys.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

572. Gwahardd y Cyhoedd

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Nid oedd yr eitemau canlynol i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

573. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

CABINET - DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3/11/2025 a oedd wedi'u heithrio fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

574. Diweddariad ar Brosiect Pafiliwn Mawr Porthcawl a Chais am Gymeradwyaeth i Addasu Contract y Prif Waith

Y penderfyniad a wnaed	Gan fod yr adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem hon wedi'i eithrio, nid yw'r cofnod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio
Dyddiad gwneud y penderfyniad	16 Rhagfyr 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen [hon](#)